
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad Blynyddol

2015/16



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Croeso'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Rydyn ni'n falch iawn i allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 2015/16.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi llwyddo i gyflawni cynnydd yn ein Strategaeth Dyfodol Clinigol ac i ail-lunio gwasanaethau presennol. Golyga hyn i ni symud mwy o'n gwasanaethau i mewn i'r gymuned ac yn nes at y bobl sydd angen eu defnyddio. Wrth i chi ddarllen drwy'r adroddiad hwn, byddwch chi'n deall y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud yn well a'r cynnydd a gyflawnwyd.

Rydyn ni'n hynod o falch bod ein Cynllun Tymor Canolig Integredig Tair blynedd (IMTP) wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn gan fod hyn yn dangos yr hyder sydd gan y Llywodraeth yn ein gallu i gyflawni a datblygu ein gwasanaeth dros y tair blynedd nesaf. Y newyddion da arall i ni yw ein bod wedi cyflawni ein targed adennill costau ariannol statudol. Mae hwn yn gamp sylweddol yng ngoleuni'r pwysau ar y gwasanaeth a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sefydliad. Ni yw un o'r ychydig Fyrddau Iechyd yng Nghymru sydd wedi cyrraedd sefyllfa adennill costau yn 2015/16. Llwyddwyd i gyflawni hyn drwy ymroddiad a gwaith caled staff y Bwrdd Iechyd yn unig ac mae'n rhywbeth rydyn ni'n falch ohono wrth edrych ymlaen at 2016/2017.

Ym mis Hydref 2015, cyflwynwyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y Ganolfan Gofal Arbenigol Critigol (SCCC) a'r Rhaglen Dyfodol Clinigol. Rydyn ni'n awr yn ymgysylltu'n agos gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r craffu mewnol ac allanol o'r achos busnes a byddwn yn dal i weithio gyda nhw i gwblhau'r cynlluniau.


Mae pwysau a heriau'n dal i fod o safbwynt lefelau uchel o alw am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnwyd dros 50,000 o lawdriniaethau, derbyniwyd 125,781 o gleifion yn ein hadrannau Damweiniau ac Argyfwng yng Nghasnewydd a'r Fenni, roedd tua 36,000 o ambiwlansys yn dod â chleifion i mewn i'n hadrannau D&A ac roedd 88,244 o bobl yn galw ein gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu. Roedd hwn yn gynnydd sylweddol o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, er waethaf y pwysau rydyn ni'n eu hwynebu, rydyn ni wedi ymrwymo i drin pob claf gyda pharch a charedigrwydd ac i gynnal eu hurddas bob amser.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol gyda'n cymunedau lleol, cleifion, staff, darparwyr statudol eraill a mudiadau gwirfoddol er mwyn cynllunio a chyflenwi gwell gwasanaethau. Ond, gwyddom fod mwy eto y gallwn ei wneud bob amser i weithio gyda'n cleifion a'r bobl leol.


Ein staff yw ein hadnodd a'n hased mwyaf ac mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn unig o ganlyniad i ymroddiad a gwaith caled ein holl staff a'r rhai sy'n gweithio gyda ni. Er waethaf pwysau a galwadau anferthol, mae ein staff yn dal i ymddangos ar restrau byr gwobrau, i ennill gwobrau ac i gael eu cydnabod yn genedlaethol am y gwaith rhagorol y maen nhw'n ei gyflawni.

Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, mae ein Datganiad Ansawdd Blynnyddol, ein Datganiad Rheolaeth Blynnyddol ac Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn rhoi mwy o wybodaeth fanwl am y cynnydd a wnaed gennym mewn meysydd allweddol. Gellir gweld yr holl ddogfennau hyn ar ein gwefan **www.aneurinbevanhb.wales.nhs.uk**

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen yr adroddiad hwn a'i fod yn rhoi gwell golwg i chi ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r cynnydd a wnaed gennym yn 2015/16.



David Jenkins
(Cadeirydd)



Judith Paget
(Prif Weithredwr)

Ein Sefydliad


Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 ac enillodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013.

Rydyn ni'n gwasanaethu poblogaeth o dros 639,000, tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Gyda chyllideb o **£1.029biliwn** rydyn ni'n cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd i bobl ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Gallwch ddysgu mwy am ein sefyllfa ariannol drwy ddarllen ein Hadroddiad Ymatebolrwydd a Chyfrifon Ariannol 2015/16


DOLEN - <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>



Rydyn ni'n cael ein rheoli gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau am yr holl wasanaethau a'r gofal sy'n cael eu darparu yn ein hardal. Cadeirydd y Bwrdd yw David Jenkins OBE a darperir y cyfeiriad gweithredol gan ein Prif Weithredwr Judith Paget.

Yn ystod 2015/16, roedden ni'n parhau i ddatblygu ein gweledigaeth a'n prif flaenoriaethau:

- Darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y claf
- Sicrhau diogelwch, rhagoriaeth ac ansawdd yn ein holl wasanaethau bob amser
- Ymddiried yn a chefnogi ein staff i wneud y penderfyniadau cywir i gleifion ac i wella gofal
- Defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon i sicrhau ein bod yn darparu gofal o ansawdd uchel a gwerth am arian i gleifion
- Gwella iechyd y cyhoedd drwy weithio gyda'n partneriaid i hybu ffordd o fyw iach a sicrhau bod mynediad i wasanaethau ataliol, yn arbennig i'r rhai mewn meysydd lle mae'r angen mwyaf



Perfformiwyd tua 50,000 o lawdriniaethau



Galwodd 88,244 o bobl ein gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau
504 yn fwy na'r llynedd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu system i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn modd diogel, gonest a doeth sy'n canolbwyntio ar y claf. Y Bwrdd sy'n gosod yr amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar gamau i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau rheolaeth briodol a bod pethau'n gweithio'n gywir ar draws y sefydliad.



130 o Fferyllfeydd y Gymuned yng Ngwent
13 fferyllfeydd mewn meddygfeydd Meddygon Teulu



Oriau newydd ein Gwasanaeth Nyrsio yn y Gymuned yn darparu Gofal yn agos i'r cartref

Mae ystod eang o Bwyllgorau a Grwpiau Cyngori hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd. Cadeiryddion y rhain yw Aelodau Annibynnol y Bwrdd; maen nhw'n craffu, cynnal trafodaethau datblygu, asesu risgiau allweddol ac yn monitro'r perfformiad yn erbyn cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein sefydliad, ein pwyllgorau a strwythurau ein Hadroddiad Ymatebolrwydd a'r Datganiad Rheolaeth Blynnyddol.

DOLEN - <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Gwerthoedd a Chenhadaeth y Bwrdd Iechyd

Fel Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n ceisio cael rhagoriaeth ym mhob peth rydyn ni'n ei wneud ac yn annog yn weithredol diwylliant o gefnogaeth, parch, gonestrwydd a gwaith tîm.

Mae hyn yn cydbwyso gydag asesu a herio gwasanaethau i geisio gwneud yn well er mwyn cyflawni a gwneud yn well na'r safonau cenedlaethol gan ddysgu o lwyddiant a chanfod lle mae angen gwelliannau.

Mae'r uchelgais hwn hefyd yn cael ei yrru gan ymrwymiad i gydweithio ac ymgysylltu gyda chleifion, cymunedau, staff, sefydliadau partner a llywodraeth.

Rydyn ni'n credu mewn: rhoi'r claf yn gyntaf, staff yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddiogelu cleifion, meithrin awydd cryf i wella wrth gyflenwi gwasanaethau a sicrhau bod hybu balchder mewn cyflenwi gwasanaethau'n hybu gwelliannau mewn profiad cleifion.

O ganlyniad, rydyn ni'n disgwyl gweld gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rydyn ni hefyd yn disgwyl gweld gostyngiad mewn marwolaethau cynamserol o gyflyrau allweddol fel canserau, trawiad ar y galon a strôc.

Mae ein gwerthoedd a'n cynlluniau bob amser wedi bod â ffocws cryf ar gyflenwi gwasanaethau diogel o'r safon uchaf. Rydyn ni hefyd yn ceisio cyflawni a gwneud yn well na'r targedau cenedlaethol er waetha'r heriau sy'n gysylltiedig gyda'r galwadau cynyddol ar wasanaethau iechyd wrth i'r boblogaeth gynyddu a phobl fyw yn hwy (gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod angen mynediad i wasanaethau iechyd).

Rydyn ni'n benderfynol bod ein gwerthoedd a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf, yn cael eu cynnal. Rydym am fod yn agored ac yn dryloyw gyda'n cleifion a'r cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu. Rydyn ni hefyd am wrando ar ac ymgysylltu gyda'n cymunedau, cleifion, staff a'n partneriaid wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau mewn modd effeithlon.

Gellir cael mwy o wybodaeth am ein hymgysylltiad gyda'r cyhoedd ar Dudalenau 29-36 yr adroddiad hwn.

Ein gwerthoedd a'n cenhadaeth yw:

- **Gweithio gyda chi i sicrhau cymuned iachach**
- **Gofalu amdanoch chi pan fyddwch ein hangen**
- **Anelu at ragoriaeth ym mhob dim rydyn ni'n ei wneud**

Rheoli Risg

Mae'r risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd yn newid yn barhaus. Gall rhai risgiau effeithio ar gyflawni ein hamcanion ac mae'n rhaid i ni roi camau yn eu lle i'w lleddfu'n effeithlon.

Mae rheoli'r risgiau sy'n affeithio ar ein gwasanaethau clinigol yn effeithlon yn helpu i sicrhau bod gofal o safon uchel a diogel yn cael ei ddarparu i bobl leol a bod amgylchedd gwaith cefnogol ar gael i'n staff.

Yn ystod 2015/16, roedden ni'n rhagfynegi risg ariannol o £19.7m ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gymryd camau angenrheidiol. O ganlyniad, roedd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau balans ariannol llwyddiannus ar ddiwedd y flwyddyn gyda chefnogaeth buddsoddiad wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru.

Gallwch ddarganfod mwy am sut rydyn ni'n rheoli risgiau drwy ddarllen ein Hadroddiad Ymatebolrwydd, Datganiad Rheolaeth Blyneddol a Chyfrifon Ariannol 2015/16

DOLEN - <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Ein Cynllun

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n weithredol ar ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Mae'r Cynllun yn amlinellu ein bwriad i geisio cyflenwi ein gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf ac mae'n gerbyd i'n helpu i gyflawni ein Strategaeth Dyfodol Clinigol. Disgrifir ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau diogel ac o safon uchel a chyflawni'r targedau lleol a chenedlaethol gorau posibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael, yn ein cynllun a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015. Mae ein cynllun yn amlinellu sut byddwn ni'n cyflawni gwelliannau, rheoli pwysau sylweddol a datblygu ein cynlluniau manwl ymhellach o fewn cynnwys ein Rhaglen Dyfodol Clinigol.

DOLEN - <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/document/273937>

Mae ein cynllun yn ailadrodd ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i ymgysylltu a chydweithio gyda phartneriaid, cleifion, cymunedau a staff i gyflenwi gwasanaethau diogel ac o safon uchel. Mae'r cynllun yn adlewyrchu pwysau a blaenoriaethau presennol ac yn amlinellu'r newidiadau i'r gwasanaeth a'r system angenrheidiol i gyflawni'r hyn a amlinellwyd yn ein Strategaeth Dyfodol Clinigol.

Mae'r cynllun yn amlygu blaenoriaethau, camau a deilliannau allweddol ar gyfer y blaenoriaethau hyn o fewn fframwaith ariannol sy'n fforddiadwy ac yn cael ei gefnogi gan strategaethau gweithlu ar gyfer cyflenwi a gwelliant. Datblygwyd blaenoriaethau drwy ymgysylltu gyda phartneriaid

allweddol, ein staff a chleifion i ddarparu'r Sylfaen ar gyfer cyflawni ein goliau. Maen nhw hefyd yn adlewyrchu strategaethau cenedlaethol a gofynion polisi.

Mae datblygu gwasanaethau mwy priodol yn gofyn am i ni addasu a moderneiddio prosesau a systemau iechyd i sicrhau bod ein gwasanaethau'n effeithlon, diogel, hygyrch a phrydlon. Rydyn ni'n cydnabod bod hyn yn gofyn am well integreiddiad o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol, cymuned ac eilaidd a gyda Gofal Cymdeithasol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r gwaith hwn ar y gweill drwy ein Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

Beth yw Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCNs)?

Yn unol â Rhwydweithiau Clwstwr Meddygon Teulu, fel y'i disgrifir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ein cysyniad ehangach o Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCNs). Mae NCNs yn cynnwys ystod ehangach o weithwyr proffesiynol iechyd sy'n cydweithio i gynllunio gwasanaethau a datblygiadau ar gyfer eu cymunedau lleol. Ar draws Gwent, mae gennym 12 NCNs.

Mae aelodaeth ein NCNs wedi'i datblygu i ymgorffori'r tîm gofal sylfaenol ehangach a chyrrff cyhoeddus eraill a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cydweithio i ofalu am boblogaethau lleol. Mae'r NCNs yn cynnwys cynrychiolwyr nyrsio yn y gymuned, ymwelwyr iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a sefydliadau'r trydydd sector.

Byddwn ni'n monitro ac yn craffu'n fanwl ar gyflawni ein cynlluniau, yn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r buddion sy'n cael eu gwireddu i'r eithaf gan ein dinasyddion a'n galluogwyr allweddol i gefnogi newid.

Mae'r **dudalen nesaf** yn amlinellu ein 10 Cynllun Newid Gwasanaethau (SCPs) sydd wedi'u datblygu i'n helpu i gyflenwi ein Cynllun Tair Blynedd ac i barhau i wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'n cleifion.

Ein 10 Cynllun Newid Gwasanaethau (SCPs)

2016 to 2019

**1. Gostwng Anghydraddoldebau
Iechyd**



2. Atal a Gwella Iechyd y Bobl



**3. Gofal Sylfaenol a
Gwasanaethau yn y Gymuned**



**4. Integreiddio – Mynd â Gofal yn
Nes at Gartrefi**



5. Rheoli Cyflyrau Cronig



6. Gofal Iechyd Parhaus



7. Cynladwyedd Gwasanaethau



**8. Iechyd Meddwl ac Anableddau
Dysgu**



9. Gofal Brys ac Argyfwng



10. Gofal wedi'i Drefnu



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

ymhellach y cynlluniau ac i ddatblygu'r cyflenwi. Gellir gweld enghreifftiau o'r datblygiadau newydd a chyffrous hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd wedi cynnal ystod o weithgareddau ail-lunio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn i gyflenwi gwasanaethau'n well o gwmpas anghenion cleifion. **Gallwch ddarllen am rai o'r gweithgareddau hyn yn yr adran 'Gofalu amdanoch Chi' ar 11-16.**

Credwn fod tystiolaeth o welliant i'w weld gyda mwy o gysylltedd mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae rhai heriau yn bodoli o hyd i gyflawni'r angen am wasanaethau ac yn arbennig ar gyfer gwasanaethau gofal/ brys heb eu trefnu a rheoli'r effaith ar y Bwrdd y mae'r galw hwn yn ei gael ar feysydd cyflenwi gwasanaethau eraill.

Gofalu amdanoch Chi

Yn ystod 2015/16 roedd nifer o ddatblygiadau o fewn y Bwrdd Iechyd i wella ein gwasanaethau. Mae'r gwelliannau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y safon uchel o ofal rydyn ni'n ei ddarparu i'n cleifion a'u teuluoedd.

Isod, mae rhai enghreifftiau o'r gwelliannau rydyn ni wedi'u gwneud:



Rhith Wasanaeth Cleifion Preswyl (VIP)

Mae cannoedd o gleifion wedi cael diagnosis a'u trin fel rhith gleifion preswyl yn Ysbyty Nevill Hall heb orfod aros am un diwrnod mewn ysbyty.

Mae'r prosiect VIP, dan arweiniad yr ymgynghorydd llawfeddygaeth gyffredinol Mr Paul Edwards a phedwar ymarferydd nyrsio llawfeddygol (SNPs), yn dewis cleifion priodol i gael eu trin fel rhith gleifion naill ai wrth eu hatgyfeirio gan eu Meddygon Teulu neu drwy'r Uned Damweiniau ac Argyfwng. Os bydd claf fel arall yn ffit a iach ond â phroblem sydd angen ymyrraeth llawfeddygol, mae tîm Mr Edwards yn gofyn am eu caniatâd i gael eu trin fel rhith gleifion preswyl.

Dywedodd Mr Edwards: "Ein nod yw darparu'r holl brofion diagnostig y bydden ni'n eu rhoi i glaf ar y ward o fewn yr un cyfnodau amser. Yr unig wahaniaeth yw nad oes yn rhaid i'r claf aros mewn ysbyty"

Gyda gwely claf preswyl arfer yn costio unrhyw beth rhwng £300 a £600 y dydd, mae'n wasanaeth sy'n gynyddol boblogaidd ond mae'r budd mwyaf i gleifion lleol.

"Gallan nhw barhau â'u bywydau gan wybod eu bod yn derbyn yr un safon uchel o ofal ag y bydden nhw petaen nhw mewn gwely ysbyty," meddai Mr Edwards.

Cyflwyno Gwasanaeth Atgoffa drwy Destun SMS i Gleifion Allanol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau anfon nodyn testun i atgoffa claf am apwyntiad er mwyn gwella profiad claf a gostwng y nifer o apwyntiadau sy'n cael eu methu.


Mae'r gwasanaeth newydd yn galluogi pobl ag apwyntiadau cleifion allanol i dderbyn neges destun a'r opsiwn i ganslo neu ail-drefnu eu hapwyntiad drwy anfon ymateb. Ynghyd â manylion yr apwyntiad, mae'r negeseuon

testun atgoffa'n dweud, 'Cofiwch geisio mynychu - os na fyddwch chi'n mynychu, mae'n costio hyd at £137 i'r Bwrdd Iechyd'.

Anfonir nodau atgoffa testun yn uniongyrchol at ffonau symudol cleifion 7 diwrnod yr wythnos a 2 ddiwrnod cyn dyddiad yr apwyntiad.

Ers dechrau'r gwasanaeth negeseuon testun ym mis Hydref 2015, mae 30% yn llai o bobl wedi methu apwyntiadau ysbytai yng Ngwent. Os bydd y ffigyrau hyn yn parhau, mewn blwyddyn bydd 7,304 o apwyntiadau – gwerth tua £1m mewn amser meddygol a nyrsio – yn cael eu harbed.

Dywedodd un claf o'r Bwrdd Iechyd am y gwasanaeth atgoffa testun newydd: "Mae gwybod cost triniaeth yn fy ngwneud yn fwy penderfynol o gadw at fy apwyntiad."




Mae fferyllwyr mewn meddygfeydd yn gwella gofal cleifion ar draws Gwent

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflogi 13 o fferyllwyr clinigol newydd i weithio gyda meddygfeydd i wella gofal cleifion.

Roedd y Fferyllwyr Clinigol newydd mewn Meddygfeydd yn dechrau gweithio gyda Meddygon Teulu ar draws Gwent rhwng mis Medi a mis Ionawr a gwelir buddion hyn yn barod. Mae cael arbenigwyr cyffuriau wrth law yn lleddfu baich meddygon ac yn caniatáu gwell rheolaeth o rai cyflyrau cronig fel diabetes ac anhwylderau resbiradol.

Gall y fferyllwyr clinigol adolygu meddyginiaeth presgripsiwn yn rheolaidd, rhoi cyngor arbenigol i Feddygon Teulu a rhagnodi meddyginiaethau i gleifion. Mae nifer o'r cleifion y maen nhw'n ymweld â nhw yn gaeth i'w cartrefi ac mewn cartrefi gofal.



Mae Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru yn amlinellu'r bwriad i weld mwy o fferyllwyr yn gweithio mewn roliau clinigol mewn meddygfeydd. Roedd Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth (MT Lleol a sefydliadau partner yn gweithio ar y cyd) yn penderfynu cyflogi'r fferyllwyr i helpu i wella gofal cleifion a rhyddhau amser MTon yng Ngwent.

Dywedodd Lloyd Hambridge, un o'r Fferyllwyr Clinigol newydd mewn Meddygfa sy'n gweithio gyda saith practis MTon yn ardal Dwyrain Caerffili: "Mae ein gwaith gyda chleifion yn helpu i reoli eu meddyginiaethau, yn lleddfu pwysau gwaith ar Feddygon Teulu, yn rhyddhau amser meddygon i dreulio gyda chleifion."

Lansio gwasanaethau gofal strôc newydd ar draws Gwent

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ail-lunio ei wasanaethau strôc ac wedi cyflwyno llwybrau gofal newydd i gleifion.

Ail-luniwyd y gwasanaeth dan arweiniad clinigol a derbyniwyd mewnbyn gan feddygon, nyrsys, therapyddion, cleifion, y Gymdeithas Strôc, y Cyngor Iechyd Cymuned,



Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a Byrddau Iechyd cyfagos.

Lansiwyd y llwybr newydd ym mis Ionawr 2016 ac mae'n cynnwys Uned Strôc Gor-aciwt arbenigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Mae cleifion strôc newydd ar draws Gwent yn awr yn treulio'r tridiau cyntaf o'u harhosiad ysbyty yn yr uned newydd lle maen nhw'n derbyn cymorth dwys gan gynnwys therapi dyddiol.

Yna, bydd cleifion addas yn cael eu rhyddhau'n uniongyrchol o'r Uned Strôc Gor-aciwt ac yn derbyn therapiy adsefydlu yn eu cartrefi eu hunain gan dîm amlddisgyblaeth arbenigol sy'n cynnwys ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, dieteteg, therapi iaith a lleferydd, nyrsio a seicoleg.

Caiff cleifion sydd angen arhosiad ysbyty hwy eu trosglwyddo i wardiau strôc aciwt/adsefydlu arbenigol yn Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Gwynllyw.

Gofal Strôc yn Gwella



Ionawr 2016 Newid dull o gyflenwi gwasanaethau strôc yng Ngwent.

ers hynny...



70% tua
o gleifion i'n huned strôc
frys o fewn 4 awr
(Roedd llai nag 20% ym
mis Tachwedd 2015)



95% tua
yn cael sgan CT o fewn
12 awr ym mis Mai 2016
(tua 60% o fewn 1 awr)



95% wedi'u hasesu gan
ymgyngorydd o fewn 24 awr
(72% yn y flwyddyn
flaenorol)



100% wedi'u hasesu
gan nyrs strôc arbenigol o
fewn 24 awr

COFIWCH...
Os ydych chi'n amau strôc, gweithredwch FAST a ffoniwch 999



Facial weakness	Arm weakness	Speech problems	Time to call 999
Wyneb Gwendid	Braich gwendid	Lleferydd problemâu	Amser ffonio 999



GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyweddodd Alison Shakeshaft, Cyfarwyddwraig Therapiau a Gwyddorau Iechyd: "Mae'r datblygiad cyffrous hwn yn sicrhau gofal strôc cyson, cyfartal ar sail tystiolaeth i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Bydd y canlyniad yn esgor ar ddeilliannau a phrofiadau gwell i gleifion."

Tîm pwrpasol yn helpu pobl hŷn sy'n dioddef gan gyflyrau iechyd meddwl

Gwasanaeth sy'n torri tir newydd i helpu pobl hŷn sy'n dioddef gan gyflyrau iechyd meddwl ar waith yng Ngwent.

Mae RAID (Asesiad Cyflym, Rhyngweithiad a Rhyddhau) yn dîm iechyd meddwl amlddisgyblaeth arbenigol sy'n gweithio mewn ysbytai yn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm yn darparu asesiad seiciatrig, cyngor a chymorth i gleifion 65 oed a throsodd sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Caiff cleifion eu canfod yn gyflym ac mae'r tîm RAID yn gallu treulio mwy o amser gyda'r claf i roi ymagwedd personol a wyneb cyfarwydd i ryngweithio drwy gydol eu harhosiad. Nod RAID yw helpu cleifion i adael ysbyty ynghynt a sicrhau eu bod yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol cywir ar ôl eu rhyddhau i'w cartrefi.



Mae'r tîm RAID yn cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd: nyrsys, seiciatryddion, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol a seicolegwyr cynorthwyol.

Dyweddodd Donald Maxfield, yr oedd ei wraig Cathryn wedi derbyn cefnogaeth gan RAID yn Ysbyty Brenhinol Gwent: "Doeddwn i ddim yn gwybod am y gwasanaeth hwn ond mae wedi llwyddo drwy'r gofal a'r sylw y mae wedi gallu ei roi i'm gwraig. Rydw i'n hynod o ddiolchgar bod gwasanaeth o'r fath ar gael."

Tîm Nyrsio yn y Gymuned newydd (y Tu Allan i Oriau)

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gael arian gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwell Gwasanaeth Nyrsio yn y Gymuned ac un estynedig i 24 awr sy'n cynnwys Nyrsys Cofrestredig a gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ar draws Gwent.

Roedd yr arian yn galluogi datblygu nifer o swyddi newydd sydd erbyn hyn yn gweithredu'n bennaf yn ystod y cyfnod 8pm - 8am.



Nod y gwasanaeth yw atal derbyniadau diangen i ysbyty drwy ddarparu gofal dros nos ynghyd â hyrwyddo rhyddhau cleifion o ysbyty yn ôl i'w cartrefi eu hunain.

Dywedodd Richard Desir, Nyrs Rhanbarthol yng Nghaerffili ac Arweinydd Prosiect: "Bydd y gwasanaeth hwn yn cefnogi unigolion a'u gofalmwr gartref yn well, yn lleihau'r angen am i gleifion gael eu derbyn i ysbytai ac yn cynyddu cefnogaeth nyrsio mewn cartrefi gofal."

"Lansiwyd" y gwasanaeth newydd hwn ym mis Chwefror 2016 a gwelwyd 262 o atgyfeiriadau yn ystod y mis cyntaf gyda chleifion yn cael eu nyrsio neu eu trin gartref, yn aml yng nghanol y nos.

Byw Nawr – Materion Marw

Y Bwrdd Iechyd oedd y bartneriaeth gyntaf yng Nghymru ar gyfer Byw Nawr – Materion Marw.

Nod y bartneriaeth yw helpu pobl i siarad yn fwy agored am farw, marwolaeth a phrofedigaeth ac i wneud trefniadau ar gyfer diwedd oes tra bod ganddyn nhw'r gallu i wneud hynny.

Drwy annog pobl i drafod eu dymuniadau tua diwedd eu hoes - gan gynnwys ble bydden nhw'n dymuno marw a'u cynlluniau ar gyfer yr angladd - gyda'u ffrindiau, eu teulu a'u ceraint - bydd yn ei gwneud hi'n llawer haws i'r ceraint wybod eu bod wedi cyflawni dymuniadau a deisyfiadau'r unigolyn mewn cyfnod sy'n drallodus a thrawmatig iawn.



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ar ddechrau 2016 a bydd yn parhau i atgyfnerthu'r bartneriaeth drwy gydol y flwyddyn.

Cysylltiadau Iechyd Byd-eang

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes hir o gefnogaeth gyfundrefnol i brosiectau Cysylltiadau Iechyd Byd-eang.

Mae gennym Bwyllgor Cysylltiadau Iechyd Byd-eang o dan arweiniad David Jenkins, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd. Hefyd, mae gennym Arweinydd Clinigol Cysylltiadau Iechyd Byd-eang sef Dr Tei Sheraton.

Rydyn ni'n llofnodwyr i Siarter Canolfan Cyd-drefniant iechyd Rhyngwladol dros Bartneriaeth Iechyd Rhyngwladol, sy'n rhoi cefnogaeth i staff drwy'r Polisi Absenoldeb Arbennig Cymru Gyfan ac mae ein Hadran Iechyd Galwedigaethol yn cynnig pigiadau am ddim, cyngor ac apwyntiadau dilynol i'r holl staff sy'n mynd ar ymweliadau cymeradwy â gwledydd datblygol.

Cyswllt De Ethiopia Gwent

Gyda chefnogaeth y Bwrdd Iechyd dros 16 mlynedd, mae Cyswllt De Ethiopia Gwent wedi hyfforddi 2,000 o weithwyr gofal iechyd lefel canolig ac wedi cyfrannu cyfarpar hanfodol. Ymwelodd staff y Bwrdd Iechyd â'r wlad yn 2015/16 i atgyfnerthu cysylltiadau a chynnig cefnogaeth bellach.



Bydwagedd@Ethiopia



Mae'r tîm hwn o fydwagedd y DU yn rhannu gwybodaeth a sgiliau yn Ethiopia.

Yn 2015/16 cafwyd arian gan Gymhorthdal Hwb Cymru ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i gefnogi ymhellach y gwaith hwn.

Golwg 20:20 Malawi

Dan arweiniad Llawfeddyg Llygaid y Bwrdd Iechyd Andrew Feyi-Waboso ers 2001, nod y prosiect yw brwydro yn erbyn a thrin achosion o ddallineb y gellid eu hatal ym Malawi. Yn 2015/16, roedd Tîm Gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn ffurfioli eu cefnogaeth



i'r prosiect yn dilyn ymweliad gan y tîm o Falawi ac yn arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth.

Cymru dros Affrica

Yn 2015/16, roedd pump o'n cyflogai'n cyfrannu at y rhaglen 'Cymru dros Affrica' ac yn dwyn buddion i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r rhaglen, ar y cyd gydag Academi Cymru, yn cynnig cyfle unigryw i staff GIG weithio ar brosiectau datblygu ac yn gwella sgiliau arwain. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r rhain yn fawr ac yn awyddus i'w datblygu ymhellach.

Grŵp Diogelu Cludwyr Rhyngwladol (Nepal)



Mae tri o ymddiriedolwyr yr elusen hon yn ymgynghorwyr yn ein Bwrdd Iechyd. Ym 1997, roedd cludydd ifanc o Nepal yn dioddef gan salwch uchder. Cafodd ei dalu a'i adael i ddod i lawr y mynydd ar ei ben ei hun gan farw 30 awr yn ddiweddarach a gadael gwraig a 2 o blant. Mae'r elusen yn darparu hyfforddiant ac addysg, mynediad i ddillad, gofal

meddygol, yswiriant ac eiriolaeth pan fydd rhywun wedi anafu neu'n sâl. Mae ein Pwyllgor Cyswllt Iechyd Byd-eang yn awyddus i gefnogi prosiectau yn y byd datblygol y tu allan i Affrica ac yn gobeithio y bydd yr elusen hon yn derbyn mwy o gefnogaeth yn y dyfodol.

Mr David Jenkins, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd

"Nod y Bwrdd Iechyd yw hybu, cefnogi a diogelu'r gweithgareddau cyswllt iechyd rhyngwladol a wneir gan aelodau o'n staff. Rydyn ni wedi ein plesio'n fawr iawn gyda'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ac rydym am annog mwy o staff i gymryd rhan a chefnogi'r mentrau hyn. Mae ein cysylltiadau rhyngwladol yn sicrhau buddion go iawn i bawb sy'n rhan o hyn. Mae'r cysylltiadau hyn hefyd yn darparu tystiolaeth glir o'n gwerthoedd fel sefydliad, gwerthoedd y dylem oll fod yn falch ohonyn nhw."

Llwyddiannau Staff

Nyrsys yn ennill gwobrau yng 'Ngwobrau Nyrs y Flwyddyn 2015' Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

Nid yn unig roedd ein nyrsys yn ennill saith gwobr ond roedd ein Claire Harris ni (Prif Nyrs Ward yn Ysbyty Brenhinol Gwent) yn ennill y wobr uchaf oll ar y noson sef Nyrs y Flwyddyn.



Enillwyr:

Gwobr Nyrsio Dyngarol – Roisin O'Hare, Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd i Geiswyr Lloches – Justine Jamieson, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd

Gwobr Plant a Bydwreigiaeth – Helen Erasmus, Arweinydd Bydwagedd a Liz Smith, Rheolwr Bydwreigiaeth Bwrdeistref

Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru – Claire Harris, Prif Nyrs Ward

Gwobr Arloesi mewn Nyrsio – Sarah Ann Beuschel, Ymarferydd Trallwyso

Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a Phoblogaeth – Kath Goode, Ymarferydd Nyrsio

Gwobr Nyrs y Flwyddyn Cymru 2015 – Claire Harris, Prif Nyrs Ward

Ail:

Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru – Dr Carolyn Middleton, Uwch Nyrs a Dr Nicola Ryley, Cyfarwyddwraig Nyrsio Gynorthwyol

Gwobr Nyrsio yn y Gymuned – Richard Desir, Nyrs Rhanbarthol

Gwobr Addysg Nyrsio – Alison Kirton, Addysgydd Ymarfer Gofal wedi'i Drefnu

Blwyddyn Lwyddiannus i Chat

Mae'r gwasanaeth Gofyn a Sgwrsio Cartrefi Gofal (Chat), sy'n cynnig clust gyfrinachol i alluogi pobl hŷn a'u teuluoedd drafod eu profiadau a mynegi



unrhyw bryderon, eleni wedi ennill **Gwobr Genedlaethol Rhwydwaith Profiadau Cleifion** am Ymgysylltu â chleifion a Theuluoedd, gwobr Gwella Profiad Gofal yng **Ngwobrau Cenedlaethol Nyrsys RCN**, **Gwobr Genedlaethol Gofal Tosturiol Kate Granger** a'r **Wobr Arloesi Medi Cymru**.

Soniodd y nyrs ranbarthol gofal sylfaenol Tanya Strange am y gwasanaeth gwirfoddoli unigryw gan gyn-weithwyr proffesiynol GIG sydd wedi ymddeol ac sy'n cynnig cefnogaeth i bobl hŷn mewn cartrefi gofal; "mae Chat yn ymwneud â pharch ac urddas. Mae'n galluogi pobl hŷn i gael llais a rheolaeth dros eu gofal ac mae hefyd yn helpu'r cartrefi gofal i wneud gwelliannau a dathlu'r hyn y maen nhw'n ei wneud yn dda."

Gwobr Genedlaethol y Nursing Times
Aeth y wobwr Hybu Urddas eleni i dîm Gofal Iechyd mewn Carchar y Bwrdd Iechyd.



Gwobr Cyfryngau Cymdeithasol y DU 2015



Roedd ein Tîm Cyfathrebu'n ennill Gwobr Cyfryngau Cymdeithasol y DU am 'Y Defnydd Gorau o Gyfryngau Cymdeithasol mewn Argyfwng' am yr ymarfer yn ymwneud â phryderon am Datws a Rhwylllo a wnaed ynghynt yn y flwyddyn. Daeth y tîm i'r brig yn erbyn Sky News a'r Swyddfa Dywydd - llwyddiant ffantastig.

Gwobrau Cyfathrebu Iechyd AHCM 2015

Enillodd ein Tîm Cyfathrebu, mewn partneriaeth gyda 'Gwella 1000 o Fywydau' Wobr 'Cymeradwyaeth Uchel' yng Ngwobrau Cenedlaethol Cyfathrebu a Marchnata Gofal Iechyd ym mis Tachwedd 2015. Derbyniodd y tîm gymeradwyaeth yn y categori 'Y Defnydd Gorau o Gyfryngau Cymdeithasol' am yr ymgyrch wedi'i seilio ar ffilm fer ('Dr Olivia') i annog pobl i ystyried gofyn am ofal mewn lleoliadau gofal iechyd amgen yn lle mynychu adrannau D&A.



Gwobr aur Prosiect y Flwyddyn am Siart Twf Electronig

Ym mis Hydref 2015, enillodd y Bwrdd Iechyd a C-Cube Solutions, drwy weithio mewn partneriaeth, y 'Wobr Aur' am Brosiect y Flwyddyn DM am y Siart Twf electronig. Dyma'r system gyntaf o'i bath sy'n caniatáu i ddefnyddwyr meddygol ar draws nifer o safleoedd gofnodi a gweld data siart twf plant drwy borthol.

Adnabod Dementia

Enillodd Adran Argyfwng Ysbyty Brenhinol Gwent y wobwr am y Poster Gorau yng 'Nghynhadledd Deall Dementia' Prifysgol De Cymru ym mis Medi 2015.

Gwobr 'Point of Light'

Cyflwynodd y Prif Weinidog wobwr 'Point of Light' i Lara Cowpe, un o Therapyddion Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd sy'n bersonol wedi codi mwy na £85,000 i Ymddiriedolaeth Canser yn yr Ardddegau.



Gwobr BEST Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)

Enwyd Dr Alison Van Buren, MT ym Meddygfa Townsgate, Casnewydd fel un o hyfforddwyr y flwyddyn BEST 2015. Gofynnwyd i holl feddygon a deintyddion dan hyfforddiant Cymru enwebu ymgynghorydd, MT, deintydd neu staff a meddygon gradd arbenigedd cysylltiol oedd yn eu barn nhw'n perfformio'n anhygoel.

Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines



Roedd Jan Smith, hyd nes iddi ymddeol yn 2015, yn Gyfarwyddwraig Weithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd a chafodd yr MBE am wasanaethau i wasanaethau therapi yng Nghymru.

Dros yrfa o 40 mlynedd, bu Jan mewn nifer o swyddi, yn gyntaf ac yn bennaf mewn ffisiotherapi, ond yna'n cynrychioli therapiau eraill wrth fod yr ymgynghorydd therapy cyntaf i Lywodraeth Cymru yn 2002.

Dywedodd Jan "Cefais ychydig o fraw ond roedd yn syrpreis hyfryd ac yn deyrnged hefyd i bobl sy'n gweithio o fewn gwasanaethau therapi ar draws Cymru."

Cydnabuwyd yr Uwch Ymarferydd Nyrsio Yvonne Jordan, sy'n gweithio yn Ysbyty Brenhinol Gwent, am ei gwasanaeth i nyrsio yng Nghymru.

Dywedodd: "Rydw i'n falch o gael derbyn yr anrhydedd o MBE am wasanaethau nyrsio. Hoffwn ddiolch i'r rhai a'm henwebodd. Ni fyddwn yn y sefyllfa i dderbyn yr anrhydedd



hon heb gefnogaeth wych cydweithwyr eraill. Hefyd, hoffwn ddiolch i gleifion Gwent sydd wedi fy ysbrydoli - hebddyn nhw, ni fyddwn i yma heddiw."



Derbyniodd Rhiannon Davies, ein Swyddog Iaith Gymraeg Fedal yr Ymherodraeth Brydeinig am wasanaethau i hybu'r iaith Gymraeg o fewn y GIG yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae Rhiannon hefyd yn gadeirydd Menter Iaith (y sefydliad sy'n ceisio codi proffil yr iaith Gymraeg ar lefel cymuned) yn Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent ac yn gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Y Fenni. Mae'n gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff y bwrdd iechyd a dywedodd:

"Mae'n hanfodol bod cleifion sy'n dymuno derbyn eu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael y cyfle i wneud hynny."



Derbyniodd Lynn Tanner, o Flaenafon, MBE am wasanaethau i gymuned Torfaen. Mae'n gyn gadeirydd Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, yn wreiddiol yn nyrs Macmillan, ac mae'n dal i eistedd ar y bwrdd TVA ac yn "hynod falch" ond dywedodd bod yr anrhydedd yn "teimlo ychydig yn afreal". Ar hyn o bryd, mae Lynn yn gweithio gyda Gofyn a Sgwrsio Cartrefi Gofal (Chat), prosiect y

Bwrdd Iaith sy'n gofyn am farn trigolion cartrefi gofal am eu gofal.

Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd



Llongyfarchiadau i Bryony Jordan, Dr Alan Willson ac Amanda Jolliffe oedd i gyd yn derbyn anrhydeddau yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2016.

Cafodd Bryony, oedd yn gweithio fel Therapydd Galwedigaethol i blant o fewn y Bwrdd Iechyd am 28 mlynedd hyd nes iddi ymddeol y llynedd, yr MBE a dywed:

"Mae'n anhygoel - rydw i'n teimlo'n reit ostyngedig. Roeddwn wrth fy modd yn gweithio gyda phlant a theuluoedd. Os gallwn ni helpu ychydig, roedd hwnnw'n brofiad cyffrous."



Cafodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Gwellu 1000 o Fywydau, y Dr Alan Willson, sydd erbyn hyn yn gweithio o fewn Tîm ABCi y Bwrdd Iechyd, yr OBE. Dywedodd Alan: "Cefais syndod a theimlaf ei fod yn anrhydedd fawr i dderbyn yr anrhydedd hon. Mae'n gydnabyddiaeth o lwyddiannau gwych y cleifion a staff GIG Cymru. Mae hefyd yn rhoi cyfle i mi dalu teyrnged i'r tîm anhygoel o gydweithwyr fydd yn mynd ymlaen i gyflawni mwy a gwell newidiadau i bobl Cymru."

Llongyfarchiadau i Amanda Jolliffe, Nyrs Baediatreg yn Ysbyty Brenhinol Gwent am gael ei anrhydeddu â'r BEM (Medal yr Ymherodraeth Brydeinig) yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am ei 30 mlynedd o wasanaeth i Ambiwylans Sant Ioan.



Dathlu ein Staff

Cynhaliwyd y pumed Seremoni Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff ddydd Gwener 18 Rhagfyr yng Nghanolfan Eglwys Crist, Casnewydd. Roedd mwy na 200 o aelodau staff yno i ddathlu llwyddiannau staff ar draws y Bwrdd Iechyd.

Gwesteiwr y digwyddiad oedd David Jenkins, y Cadeirydd a Judith Paget, y Prif Weithredwr a'r gwestai arbennig oedd y Cyn Brif Weithredwr Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Dywedodd Judith: "Mae'n ffrainc i fod yn westeiwraig i'r gwobrau hyn fel eich Prif Weithredwr. Rydw i'n falch o'r ymateb i'r enwebiadau am y gwobrau a hefyd o gael y cyfle i gyflwyno categori newydd o Addysg, Ymchwil ac Arloesi."



Sut roedden ni'n perfformio yn 2015/16

Mae'r trosolwg hwn yn crynhoi ein perfformiad yn erbyn ystod o dargedau cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod ar gyfer holl Fyrddau Iechyd Cymru.

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth fanwl yn ein Hadroddiad Perfformiad.

DOLEN - <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

Y Cerdyn Sgorio Cytbwys

Offeryn yw hwn gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi fframwaith i GIG Cymru i fonitro perfformiad.

Mae'n dangos cyfres safonol o ddangosyddion fel y gellir gwerthuso perfformiad sefydliad. Felly defnyddiwyd y cerdyn sgorio cytbwys i strwythur Adroddiad Perfformiad hwn.

Mae'r **Cerdyn Sgorio Cytbwys 2015/16** isod yn dangos bod ein Bwrdd Iechyd wedi gwella perfformiad cyffredinol ar gyfer pob categori yn ystod 2015/16, ac eithrio yn y categori 'Cadw'n Iach'.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Gwell perfformiad	Perfformiad cynaliadwy	Dirywiad mewn perfformiad	Crynodeb o'r targed
AROS YN IACH – digon o wybodaeth a chymorth i reoli fy iechyd corff a meddwl	8 mesur	0 mesur	11 mesur	
GOFAL DIOGEL – cael fy niogelu rhag niwed ac yn diogelu fy hun rhag niwed y gwn i amdano	7 mesur	3 mesur	1 mesur	
GOFAL URDDASOL – cael fy nhrin â gofal urddasol a pharchus ac rydw i'n trin eraill yr un fath	1 mesur	0 mesur	0 mesur	
GOFAL EFFEITHLON – derbyn y gofal a'r cymorth cywir mor lleol ag sy'n bosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus	5 mesur	0 mesur	4 mesur	
GOFAL PRYDLON – cael mynediad prydlon i wasanaethau ar sail angen clinigol ac yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am fy ngofal	10 mesur	1 mesur	6 mesur	
GOFAL UNIGOL – cael fy nhrin fel unigolyn, gyda fy anghenion a'm cyfrifoldebau fy hun	3 mesur	1 mesur	1 mesur	
EIN STAFF A'N HADNODDAU – Gallu cael gwybodaeth am sut mae'r GIG yn agored a thryloyw am y defnydd o adnoddau a gallaf wneud defnydd gofalus ohonyn nhw	4 mesur	0 mesur	0 mesur	
CRYNODEB	38 mesur	5 mesur	23 mesur	

Crynodeb Byr am Berfformiad

Yn yr adran hon, rydyn ni'n crynhoi ein perfformiad yn 2015/16. Rydym wedi defnyddio'r saith categori o'r Cerdyn Sgorio Cytbwys fel penawdau i gyflwyno'r wybodaeth grynodol hon:

Cadw'n Iach

- Er waethaf poblogaeth sy'n heneiddio, mae'r gyfradd o dderbyniadau brys i ysbytai ac ail dderbyniadau o fewn blwyddyn ar gyfer cyflyrau cronig, wedi aros yn sefydlog.
- Mae'r nifer sydd wedi cael pigiad y fflw mewn grwpiau sydd mewn risg arbennig yn dilyn haint, wedi gostwng ychydig ond mae'r canran o staff a gafodd y pigiad wedi cynyddu.
- Roedd y nifer o blant a gafodd bigiadau'n genedlaethol yn dda ac ar gyfer y rhan fwyaf o fannau, roedd yn uwch na'r targed o 95%.
- Roedd y canran o blant mewn Dosbarth Derbyn (4/5 oed) oedd yn y dosbarth dros bwysau neu ordew wedi gostwng ychydig.
- Roedd y canran a frasamcanwyd o ysmygwyr o fewn ardal y Bwrdd Iechyd ac a gafodd driniaeth rhwch gorau i ysmygu gan GIG wedi cynyddu'n sylweddol, ond mae'n dal yn is na'r targed o 5%.
- Cynyddodd y canran o ysmygwyr a gafodd eu trin gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu'r GIG ac a basiodd brawf anadl i gadarnhau eu bod wedi rhoi'r gorau i ysmygu. Roedd yn agos i'r targed o 40%.
- Roedd y canrannau o bractisys MTON oedd yn cynnig apwyntiadau ac ail bresgripsiynau'n dangos cynnydd ac roedden nhw'n uwch na'r targed ar gyfer y ddau wasanaeth.

Gofal Diogel

- Roedd y gyfradd o oedi wrth drosglwyddo gofal iechyd meddwl yn gostwng ychydig. Roedd y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer iechyd nad oedd yn iechyd meddwl yn cynyddu ychydig ond roedd y cynnydd ychydig yn llai na'r hyn ar gyfer Cymru gyfan.
- Roedd y niferoedd o achosion o C Difficile ac achosion o Staph Aureus bacteraemia i bob 100,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu ychydig. Fodd bynnag, roedd y gyfradd C. Difficile yn un o'r isaf yng Nghymru.

- Roedd y niferoedd o friwiau pwysau a gafwyd o fewn gofal iechyd wedi cynyddu ychydig.

Gofal Urddasol

- Roedd y canran o gleifion oedd wedi cael eu triniaeth wedi'i ohirio fwy nag unwaith ac wedi cael eu triniaeth o fewn 14 diwrnod neu gynted ag oedd yn gyfleus iddyn nhw, wedi gostwng ychydig.

Gofal Effeithlon

- Roedd y gyfradd farwolaeth grai (treiglo dros 12 mis) yn cynyddu ychydig ond roedd y mesur o farwoldeb sy'n cael ei addasu i adlewyrchu pa mor sâl yw ein cleifion, yn dangos gostyngiad bychan.
- Roedd y ganran o gôd diagnosis egwyddor dilys 3 mis ar ôl achos a dyddiad – perfformiad misol a 12 mis yn treiglo – yn gostwng ychydig – ond roedd ein perfformiad yn aros ymhlith y gorau yng Nghymru.
- Roedd y canran o bobl 40 + oed â record MT o fesur pwysau gwaed yn y 5 mlynedd flaenorol wedi cynyddu.
- Roedd y nifer o Astudiaethau Portffolios Ymchwil Clinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynyddu.

Gofal Amserol

- Roedd y canran o feddygfeydd MTon sy'n agored yn ystod oriau craidd dyddiol o fewn awr i'r oriau craidd dyddiol yn cynyddu ac mae bron yn 100%. Mae'r canran o feddygfeydd sy'n cynnig apwyntiadau rhwng 5pm a 6.30pm o leiaf 2 noson yr wythnos wedi aros yn sefydlog ar 100%.
- Roedd y canran o gleifion oedd yn aros llai na 26 wythnos i gael triniaeth (RTT) yn dal i fod yn is na'r targed o 95% ac mae gwella'r perfformiad hwn yn bryder mawr i'r Bwrdd Iechyd.
- Roedd y niferoedd o gleifion oedd yn aros yn hwy na 36 wythnos am driniaeth yn cynyddu'n raddol drwy gydol y flwyddyn ond roedden nhw'n gostwng yn ystod 3 mis diwethaf 2015/2016 ac yn diweddu'n is nag ar ddechrau'r flwyddyn.
- Roedd y canran o gleifion sy'n aros llai nag 8 wythnos am brofion diagnostig penodol wedi gostwng.

- Roedd y perfformiad yn erbyn yr holl fesurau D&A a gwasanaethau ambiwlans yn dirywio dros fisoedd y gaeaf ac roedd yn faes pryder i'r Bwrdd Iechyd.
- Cyflawnwyd y targed o 98% ar gyfer cleifion a atgyfeiriwyd fel achosion o amheuaeth o ganser nad oedd yn fater brys, i gael eu gweld o fewn 31 diwrnod, am y mwyafrif o'r misoedd 2015/2016.
- Ni chyflawnwyd y targed o 95% ar gyfer cleifion a atgyfeiriwyd fel achosion brys o amheuaeth o ganser yn cael eu gweld o fewn 62 diwrnod ond roedd y perfformiad yn gwella'n gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn agos i lefel y targed. Roedd y perfformiad ymhlith y gorau yng Nghymru.
- Yn dilyn newidiadau i'r gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer y cyfnod uwch-aciwt o strôc, roedd y canran cydymffurfiant gyda'r mesurau gwella ansawdd i bobl sydd wedi dioddef strôc, wedi gwella'n sylweddol.
- Roedd y canran o boblogaeth Gwent oedd wedi cael triniaeth gan ddeintydd GIG yn ystod y 24 mis diwethaf yn aros yn sefydlog ar tua 56-57%.
- Roedd y nifer o apwyntiadau dilynol lle'r oedd oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed (wedi bwcio a heb fwcio) yn gostwng yn sylweddol wrth i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ffocws ar y grŵp hwn o gleifion.

Gofal am Unigolion – Iechyd Meddwl

- Yn dilyn asesiad LPMHSS, roedd cynnydd yn y canran o asesiadau gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) a gynhaliwyd o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr atgyfeiriad a'r canran o ymyraethau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn 56/28 diwrnod. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd lefelau targed ar gyfer y ddau fesur hyn.
- Derbyniodd 100% o drigolion y Bwrdd Iechyd eu hadroddiad asesiad deilliant o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl eu hasesiad.
- Gyda'r un eithriad o fis Medi, roedd y canran o drigolion y Bwrdd Iechyd (pob oed) oedd â Chynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) dilys wedi'i gwblhau ar ddiwedd bob mis, yn uwch na'r targed o 90%.
- Roedd gan 100% o'n hysbytai drefniadau i sicrhau bod eiriolaeth ar gael i bob claf oedd yn gymwys (targed 100%).

Ein Staff a'n Hadnoddau

- Roedd y canran o absenoldeb staff oherwydd salwch yn uwch na'r targed o 4.99%, ond roedd yn gyson is na'r lefel ambr o 5.49%.
- Mae'r canran o'n clefion nad oedd yn mynychu apwyntiadau wedi bod ymhlith yr uchaf yng Nghymru yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn 2015/16 gwelwyd gostyngiad yn y canran hwn ac mae ein cyfraddau erbyn hyn yn debyg i weddill Cymru.

Ymgysylltu a Gweithio mewn Partneriaeth

Yn ystod 2015/16 rydym wedi atgyfnerthu ein gweithgareddau ymgysylltu fel y gwelir isod.

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol: Mae gennym drefniadau sefydlog iawn gyda'r pum Awdurdod Lleol yn ein hardal, ynghyd â gyda Phowys. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar nifer o newidiadau a datblygiadau gwasanaethau. Mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn chwarae roliau actif ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol, maen nhw'n mynychu trefniadau craffu Awdurdodau Lleol a hefyd rydym wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda'r Cyngor Llawn neu Bwyllgorau Craffu pob Awdurdod Lleol i sicrhau'r cyflwyniadau diweddaraf ac i drafod yn agored unrhyw broblemau neu gynlluniau allweddol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio fel partner allweddol yn y Bartneriaeth Gwent Ehangach ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles sydd i'w gweithredu'n llawn yn 2016. Sefydlwyd mewn partneriaeth Fforwm Partneriaeth a hefyd Grŵp Arweiniad gyda chefnogaeth ystod o raglenni gwaith a threfniadau cefnogi a chynghori.

Gweithio gydag ACau ac ASau: Mae'r sefydliad yn gweithio'n actif gydag ACau ac ASau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn ymwybodol o ymagweddau a datblygiadau allweddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu sesiwn briffio ACau ac ASau rheolaidd sy'n rhoi diweddariad cryno ar feysydd o ddiddordeb a datblygiad o raglen waith y Bwrdd Iechyd. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd un i un gydag ACau ac ASau yn arbennig gyda'r Prif Weithredwr i sicrhau bod gwleidyddion lleol yn ymwybodol o broblemau allweddol yr ardal o bersbectif iechyd.

Gweithio gyda Heddlu Gwent a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau (PCC)



GwentPCC @GwentPCC · 2h

Productive meeting with @AneurinBevanUHB this morning around how public services can work together to provide greater benefits for citizens



Cyfarfod cynhyrchiol gydag @AneurinBevanUHB y bore 'ma i drafod sut gall gwasanaethau cyhoeddus gydweithio i ddarparu gwell buddion i ddinasyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n bositif gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent. Mae'r meysydd yn cynnwys:

Darparu hwb aml-asiantaeth i gydlynu cymorth i ddioddefwyr troseddau (Connect Gwent):

- Datblygu ymagwedd Gwent at 'brysbennu stryd' (trin pobl ar gyfer mân anafiadau mewn ardaloedd prysur fel canolfannau trefi/ dinasoedd yn ystod y nos i leihau'r derbyniadau i ysbytai).
- Gweithredu protocolau ar gyfer archwiliadau iechyd a chleifion sydd wedi diflannu o ysbytai.
- Adolygu trefniadau Adran 135.
- Datblygu cynnig gyda'r pum Awdurdod Lleol am gludiant penodol i gleifion/ defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.
- Cydweithio i ddatblygu Hwb Diogelu Aml-asiantaeth (MASH).
- Cyflwyno Gwobrau Gwroldeb ar y cyd.
- Adolygu rôl a pholisïau sy'n tanategu arferion nyrsio mewn ystafelloedd yn y ddalfa.
- Gweithio ar y cyd i gyflawni'r ddyletswydd ATAL ac ymateb i'r strategaeth YMRYSON.

Gweithio gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned:

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymuned (CIC) Aneurin Bevan, sefydliad statudol annibynnol sy'n gweithredu fel llais i gleifion a'r cyhoedd. Mae hefyd yn gorff gwarchod y GIG ar gyfer pob agwedd o ofal a gwasanaethau.



Rydym yn cydweithio i drafod cyflawni a datblygu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Rydym hefyd yn croesawu adroddiadau gan y CIC yn ein cyfarfodydd cyhoeddus ac yn ddiolchgar am eu cyngor, ei her a'i gymorth parhaus.

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â: Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Tŷ Rhaglan, 6-8 Clôs William Brown, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516 (mae peiriant ateb 24 awr)
E-bost:
enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Consortïwm Rhyngwladol ar gyfer Mesur Deilliannau Gofal Iechyd (IACHAEM):

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i strategaeth o ofal iechyd ar sail strategaeth sy'n unol ag egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus Llywodraeth Cymru.

Prif elfennau hyn yw:

- Mesur deilliannau clinigol a rhai lle cafwyd adroddiad gan gleifion - mesurau sy'n bwysig i gleifion ac sy'n dweud wrthym yn wrthrychol pa mor effeithlon yw ein gofal.

- Mesur costau'n gyfrifol ar draws bob un o'n rhaglenni drwy ystod o ddulliau.
- Asesu gwerth pob peth rydyn ni'n ei wneud a mabwysiadu arferion busnes hyblyg ac arloesol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i'w gwerth gorau.
- Sicrhau bod pawb yn gallu cyfrannu at y gwaith pwysig hwn a'u bod yn teimlo bod ganddyn nhw rym i ddylanwadu ar newidiadau ar draws y system gyda stiwardiaeth glinigol ac ariannol gref law yn llaw.

Yn ddiamau, mae hyn yn her i gyflawni'r newid hwn ac felly ym mis Mehefin 2015 roedd y Bwrdd Iechyd yn ffurfio partneriaeth strategol gydag ICHOM i'n helpu i gyflawni'r amcanion uchod.

Roedd y bartneriaeth yn hynod llwyddiannus yn ystod 2015/16, gyda'r ddau sefydliad yn rhannu eu gwersi gyda'i gilydd ac yn fwy eang yn y cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r llwyddiannau'n cynnwys proses i gipio deilliannau'n llwyddiannus wrth drin clefyd Parkinson's. Roedden ni'n ymestyn y rhain wedyn i mewn i feysydd gofal clinigol eraill fel strôc, trawiad y galon, iechyd meddwl a chataractau.

Edrychwn ymlaen at barhau â'r bartneriaeth hon wrth i ni ddatblygu ymhellach ein gwaith gofal iechyd ar sail gwerth.

Gweithio gyda'r Trydydd Sector: Mae trefniadau cadarn gan y sefydliad gyda'r trydydd sector yn ein hardal, yn arbennig drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen. Mae'r grwpiau hyn yn chwarae rôl actif yn ein Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid a hefyd yn cymryd rhan mewn ystod o ddatblygiadau ac ymagweddau gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ystod o brosiectau mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector a gwirfoddolwyr. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwasanaeth Cyfeillio Red Robins Age Cymru Gwent yn Ysbyty Gwynllyw (SWH) ac Ysbyty Brenhinol Gwent (RGH), Casnewydd.
- Gwirfoddolwyr GAVO Sunflower - Cynnig gweithgareddau cyfeillio, grŵp trin gwallt ar y cyd gyda cholegau lleol yn Ysbyty Aneurin Bevan, Ysbyty Ystrad Fawr a Chanolfan Adnoddau Rhymni.
- C.H.A.a.T. (Gofyn a Sgwrsio Cartrefi Gofal) – Y Gwirfoddolwyr yw Cymdeithas Pobl sydd wedi Ymddeol o GIG Gwent. Fel cyn gyflogai o'r GIG mae gan y rhain angerdd go iawn tuag at wella gofal pobl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio.
- Peilot C.H.A.a.T. mewn Ysbytai - Mae Gwirfoddolwyr Chat yn cefnogi peilot ar ddwy ward yn YYF (1 cyffredinol ac 1 EMI) i gefnogi pobl hŷn

a'u perthnasau wrth bwynt trosglwyddo. Cytunwyd ar systemau atgyfeirio, taflenni gwybodaeth i gleifion ac adborth i brosesau'r ward. Cynhelir trafodaethau hefyd gyda'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn i gynnal peilot o fenter lle bydd Gwirfoddolwyr Chat yn cynnal clinigau i berthnasau mewn wardiau EMI i geisio barn aelodau teuluoedd cleifion gofal iechyd meddwl am ofal i bobl â dementia.

- Menter 'Presgripsiwn ar gyfer Unigrwydd' - cais cydweithredol llwyddiannus i dudalen 'syniadau' Her Technoleg Iechyd Cymru i ddatblygu gwasanaethau cyfeillio ar gyfer y rhai sy'n unig/ ynysig yn gymdeithasol. Mae hon yn fenter bartneriaeth sy'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol, Mudiadau Gwirfoddol, Coleg Gwent, Age Cymru, SSAFA a Fforwm y Cyn-Filwyr.
- Gweithwyr Cymorth Dementia - mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Alzheimer's. Penodwyd 6 Gweithiwr Cymorth Dementia (DSWs) i weithio ar draws ardaloedd NCN. Drwy weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Asesu Cof, bydd y DSW's yn cefnogi pobl o amser y diagnosis. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect aml-asiantaeth a chytunwyd ar gynllun gweithredu drwy'r Bwrdd Dementia.
- Canolfan Blant Serennu a Sparkle – Ystod eang o roliau gwirfoddol yng Nghanolfan Blant Serennu, High Cross, Casnewydd.

Cymuned Gardd Furiog Llanfrechfa Grange, Cwmbran fel rhan o'r rhaglen SCCC

Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi parhau i ymateb yn weithredol i 'Fwy nad Dim ond Geiriau' - fframwaith strategol gwasanaethau'r iaith Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi parhau i baratoi ar gyfer y Safonau Iaith Gymraeg ar y gorwel fydd yn cael eu cyflwyno gan y Comisiynydd Iaith Gymraeg y flwyddyn nesaf.

Roeddem yn falch o dderbyn gwobr yn ystod 2015/16 yn yr achlysur Gwobrau'r Iaith Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol blynyddol am y gwaith rydym yn ei wneud yn hybu ein 'Cynnig Actif' o wasanaethau Cymraeg i gleifion a gofawyr.



Gweithio i Wella

Yn unol ag 'Egwyddorion Gwella', mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli cwynion o fewn rheoliadau o'r enw 'Gweithio i Wella'. Egwyddor waelodol *Gweithio i Wella* yw pryd bynnag bydd pryder yn codi am driniaeth a gofal, naill ai drwy gŵyn, hawliad neu ddigwyddiad clinigol, gall y rhai oedd yn ymwneud ag ef ddisgwyl cael eu trin yn agored ac yn onest, derbyn

ymchwiliad trylwyr a phriodol a chydnabyddiaeth brydlon am sut bydd y mater yn cael ei drin.

Lle bydd anghyfiawnder neu galedi wedi digwydd, nod y Bwrdd Iechyd, os yn bosibl, yw dychwelyd i'r man lle bydden nhw wedi bod pe na bai'r gwasanaeth gwael neu'r camweinyddu wedi digwydd. I gefnogi hyn, sefydlwyd panel Iawndal.

Hefyd, mae uwch aelodau staff yn cynnig cyfarfod â'r achwynwyr i roi eglurhad, ymddiheuriad a chmau gwell pan fydd hynny'n bosibl.

Mae'n bwysig datrys cwyn cynted ag sy'n bosibl ac eleni rydym wedi gweithio'n galed i ddatrys bron i 1,000 o gwynion o fewn 5 niwrnod.

Yn dilyn adborth neu gŵyn, mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar achwynwr ac efallai'n fwy pwysig bod camau'n cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth i atal cwynion pellach. O fewn y Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n annog diwylliant o ddysgu lle nad yw gwelliant yn waith ychwanegol ond yn rhan o waith bob dydd.

Diolch am Ddarparu Gofal Arbennig

Mae'n bwysig nodi bode in staff ar draws y Bwrdd Iechyd yn derbyn cannoedd o negeseuon o werthfawrogiad bob blwyddyn. Mae rhai o'r rhain yn cael eu gosod ar fewnrwyd ein staff ac ar ein gwefan sydd â wal benodol ar gyfer diolchiadau gan y cyhoedd i rannu profiadau, teyrngedau a diolch.

Dyma rai enghreifftiau o negeseuon a dderbyniwyd yn ystod 2015/16:

Treuliais yr wythnos ddiwethaf yn Ward C6 Dwyreiniol Ysbyty Brenhinol Gwent.

Nodyn bychan i ddweud pa mor wych roedd yr holl staff sy'n gweithio yn y ward, o'r glanhawyr i'r staff bwyd a diod. Roedd y nyrsys cefnogi'n rhagorol fel y nyrsys gwych. Nid oedd unrhyw beth yn broblem i un ohonynt. Roedd y meddygon wrth ddod o gwmpas yn siarad â chi ac yn egluro'r driniaeth mewn geiriau dealladwy.

Mae'r GIG yn cael amser drwg yn y wasg. Yn yr ysbyty hwn, mae'n fyw ac yn iach; dim cwyno, dim ond pobl gyfeillgar sy'n gofalu amdanoch. A fyddech chi cystal â diolch i bawb yn y ward am y modd roedden nhw'n fy nhrin ac yn awr mae fy nghyd gleifion yn ffrindiau da i mi.

David Wheeler (7 Mawrth 2016)

Hoffwn anfon diolch anferthol i staff ward 4/4 yn Nevill Hall.

Bu'n rhaid i fy nhad fynd i mewn yno ychydig cyn y Nadolig a bu farw'n drist iawn ar 24 Ionawr. Fodd bynnag, yn ystod ei arhosiad, roedd y staff yn ei wneud ef a'n teulu mor gyfforddus a diogel ar amser lle'r oedden ni i gyd yn ofnus ac yn fregus. O'r staff domestig oedd yn dod â'n prydau i ni ac yn glanhau ei ward, i'r Uwch Brif Nyrsys oedd yng ngofal y ward, roedd pob un yn hynod o garedig a gofalgwr – ymhell y tu hwnt i'w dyletswyddau.

Yn anffodus, ni allaf ond enwi rhai o'r rhai oedd yn gofalu amdano sef y nyrsys ategol Ashleigh, Julie a Faye, Nyrsys Staff Kath a Lindi, y Brif Nyrs Jo, ac ymddiheuraf i'r Brif Nyrs arall oedd ar ddyletswydd ar y pryd. I bob un ohonoch oedd yn helpu i wneud dyddiau olaf hen ddyn mor gyfforddus, hoffwn ddiolch o waelod fy nghalon. Gwn fod Dad yn meddwl y byd ohonoch. Cariad a diolch i chi i gyd.

Kerri James (7 Mawrth 2016)

Hoffwn adael ychydig o adborth am y cwrs NAS Earlybird a gynhaliwyd gan Marion a Bridie ym Mlaine.

Cafodd fy mab ddiagnosis Awtistiaeth yn 2 oed ac roeddwn i'n ei chael hi'n anodd delio â hyn. Roeddwn yn teimlo'n unig ac yn ei chael hi'n anodd dod i delerau a deall ei ddiagnosis. Roeddwn wedi clywed am y cwrs hwn a lwcus iawn llwyddais i gael lle arno. Roeddwn i mor nerfus ar y dechrau ac yn wir ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Mae Marion a Bridie yn gredyd i'r Bwrdd Iechyd gan fod fy mywyd wedi newid er gwell ers i mi fod ar y cwrs hwnnw ac yn fwy felly, un fy mab. Erbyn hyn rwyf yn deall Awtistiaeth a sut i edrych arno o safbwynt fy mab a sut i reoli ei ymddygiad. Roedd fy mab yn cael cyfnodau anodd iawn yn aml, ac roeddwn ar ben fy nhennyn. Maen nhw'n awr mor anghyffredin oherwydd fy mod wedi cael fy nysgu i ddeall y broblem waelodol fel ei fod yn atal fy mab rhag colli ei dymer neu fod yn rhwystredig.

Mae fy mab wedi datblygu'n wych ers i mi fod ar y cwrs ac mae wedi newid ein bywydau er gwell. Maen nhw'n gredyd i'r Bwrdd Iechyd a bydda i'n ddiolchgar iddyn nhw am byth am eu hymroddiad.

Claire Ralph (10 Rhagfyr 2015)

Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rydyn ni'n falch o allu amlygu'r gwaith a wnaed i ymgysylltu gyda'r bobl sy'n byw yn ardaloedd y Bwrdd Iechyd yn ystod 2015/16.

Ystyrir ymgysylltu fel rhywbeth hanfodol i atal salwch a chyflenwi gwasanaethau ymatebol. Mae hefyd yn allwedd i ddeall ymddygiadau'n ymwneud â'r defnydd o wasanaethau (galw) a datblygiadau (ein cynllun 3 blynedd, strategaeth Dyfodol Clinigol, rhaglen De Ddwyrain Cymru) ac i gael trafodaethau a allai affeithio ar hyn. Felly, mae ymgysylltu'n elfen gritigol o'r modd rydyn ni'n cynnal ein busnes ac mae'n amlwg drwy nifer o gyfarwydddebau polisi presennol gan gynnwys:

- Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Roedd y Bwrdd Iechyd yn gosod pwyslais ychwanegol ar yr agenda hwn drwy gymeradwyo ei Strategaeth Ymgysylltu'n gynnar yn 2015 a phenodi uwch dîm ymgysylltu yn yr hydref. Roedd y Tîm wedi sefydlu'n llawn erbyn mis Medi 2015.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i fod yn bresennol mewn cymunedau am o leiaf un diwrnod llawn bob wythnos. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau partner ac ochr yn ochr â gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd i affeithio newidiadau o ganlyniad i'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu a'i glywed.

Rydyn ni hefyd wedi defnyddio'r cyfleoedd cynnar i rannu nifer o ymgyrchoedd a negeseuon allweddol ynghyd â symud yn eithaf cyflym i mewn i'r ail gam datblygu mewn rhai meysydd i brofi canfyddiad ac ymddygiadau (e.e. Mynediad at Feddygon Teulu, Rhagnodi, 'Beth sy'n bwysig' wrth lunio gwasanaeth - brest???).

Ar y cyd gyda Thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd, yr ymgyrchoedd a rannwyd yw:

• Mynediad at Feddygon Teulu • Dewis Doeth • Ffliw • Canolfan Gofal Critigol Arbenigol ac Ymwybyddiaeth o'r Dyfodol Clinigol • Gofal Bia Hi y Gaeaf Hwn • Atgyfeiriadau Traws Ffiniol (Sir Fynwy)	• Ysgogwch eich bywyd /rheoli straen • Rhoi'r Gorau i Ysmygu • Gwybodaeth am Fân Anafiadau (Caerffili a Blaenau Gwent) • Fy Iechyd ar-lein
---	--

Drwy'r ymagwedd hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu parhau gyda'r drafodaeth gyda'r cyhoedd y tu hwnt i un neges.

Ers mis Medi 2015, roedd y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu gyda 8,681 o bobl drwy bresenoldeb yn y gymuned mewn ychydig llai na 90 lleoliad. Rydym wedi casglu gwybodaeth am oed, rhyw ac ethnigrwydd pobl hyd y mae'n bosibl i ddeall â pha grwpiau rydyn n'n ymgysylltu a'r rhai y mae'n rhaid i ni ymgynraedd atyn nhw'n well.

Mae gwybodaeth a gasglwyd wedi dangos materion ar draws ein gwasanaethau iechyd y gellir eu categoreiddio o dan y themâu canlynol:

- Cyfathrebu
- Mynediad
- Trefnu
- Deall argaeledd gwasanaethau a safleoedd
- Cludiant
- Amgylchedd

Rydym wedi trosglwyddo adborth a gasglwyd i gydweithwyr perthnasol i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ystyried a delio â materion a godwyd gan aelodau'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Ymchwil a Datblygu o fewn y Sefydliad

Canolfan Ymchwil Clinigol ac Arloesi

Ym mis Tachwedd 2015 agorwyd y Ganolfan Ymchwil Clinigol ac Arloesi (CRIC).

Agorwyd y cyfleuster newydd yn swyddogol gan yr Athro John Bisson, arweinydd Llywodraeth Cymru yn yr adran Ymchwil i Ofal Cymdeithasol a Iechyd oedd yn dweud "Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



ymrwymiad cadarn i ofal iechyd doeth ac mae'r amgylchedd gofal iechyd positif hwn ar gyfer gwaith ymchwil yn helpu gyda gôl y Bwrdd Iechyd i recriwtio a chadw. Mae canolfannau ymchwil fel hyn yn cefnogi datblygu ffyniant iechyd i bobl Cymru".

Mae'r CRIC yn ardal glinigol fawr sy'n cynnwys 15 ystafell y gellir eu llogi, ystafell dderbyn ac ystafell aros lle mae ymchwil ac arloesi'n dod at ei gilydd o dan un to. Ers i ni agor, rydym wedi trin cleifion i wella briwiau, cleifion resbiradol, dermatoleg a chlefyd Parkinson's sydd wedi'u recriwtio i mewn i'n hastudiaethau ymchwil. Mae'r ganolfan wedi profi'n hynod boblogaidd gyda chleifion gan ei bod yn cynnig amgylchedd mwy ffafriol ar gyfer rhyngweithiad nyrs yr ymchwil a'r claf o gymharu â'r clinig cleifion allanol prysur traddodiadol.

Mae ystafell aros y Ganolfan hefyd yn gweithredu fel man addysgu lle'r ydym yn ddiweddar wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer ein banc o nyrsys ymchwil newydd. Hefyd, defnyddiwyd y Ganolfan gan glinigwyr oedd yn dod i weithio allan o'r uned ar amrywiol brosiectau ymchwil gan fod arbenigedd ymchwil ar gael yn rhwydd.

Banc Nyrsys Ymchwil

Ym mis Ionawr eleni gwelwyd dechrau gweithredu'r fenter banc nyrsys Ymchwil a Datblygu newydd.

Mewn ymateb i heriau hyrwyddo ymchwil ar draws y Bwrdd Iechyd, roedd yr adran Ymchwil a Datblygu'n recriwtio wyth o nyrsys ymchwil ar gyfer y banc. Cyflawnwyd rhaglen hyfforddi ar ffurf pedwar diwrnod astudio dwys

yn cynnwys Practis Clinigol Da, rheolaeth ymchwil, cydsynio deallus a chaniatâd i gynnal gwaith ymchwil. Darparwyd yr hyfforddiant hwn ar y cyd gyda'n cydweithwyr yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Yn dilyn hyn, roedd pob nyrs yn cwblhau sifftiau cysgodol gyda nyrsys ymchwil profiadol ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn cwblhau medrusrwydd. Mae'r nyrsys banc yn barod yn gwneud gwahaniaeth i'n gallu i gefnogi a chyflawni gwaith ymchwil drwy gynorthwyo ein Huned Treialu Clinigol gyda'i llwyth gwaith. Mae'r nyrsys yn cael eu gosod ar draws y Bwrdd Iechyd i gefnogi astudiaeth mewn meysydd fel gofal dwys, rhiwmatoleg ac orthopaedeg. Yn unol â strategaethau adennill costau Llywodraeth Cymru, mae'r R & D yn defnyddio unrhyw arian a ddaeth gydag astudiaethau er mwyn talu nyrsys a helpu i gynyddu gweithgareddau ymchwil ar draws y Bwrdd Iechyd.

Tîm Ymchwil Nevill Hall



Yn 2015 roedd ymchwil a datblygu'n llwyddo i sicrhau arian elusen i gynyddu gwaith ymchwil yn Ysbyty Nevill Hall (NHH) drwy gyflogi dwy nyrs ymchwil a gweinyddwr treialon i weithio'n benodol o'r safle hwn.

Yn draddodiadol, mae gwaith ymchwil yn yr ysbyty wedi cael ei gynnal gan

nyrsys ymchwil yn gweithio o Ysbyty Brenhinol Gwent ac yn teithio rhwng y ddau safle. Drwy gyflogi staff i gael eu lleoli ar y safle mae'r nyrsys hyn yn gallu hyrwyddo cyfarfodydd a sgysiau ac maen nhw wrth law i gleifion a chlinigwyr.

Cynllun peilot yw hwn gyda'r nod o gynyddu gweithgareddau ymchwil ar ffurf recriwtio i astudiaeth ynghyd ag ehangu'r meysydd sy'n cael eu cefnogi yn NHH yn ystod 2016/2017. Yr amcan yw adeiladu amgylchedd ymchwil actif lle bydd cleifion yn cael cynnig astudiaethau ymchwil fel rhan o'u gofal arferol.

Cydweithio

Er mwyn i'r Adran Ymchwil a Datblygu gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru, mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio am nifer o flynyddoedd gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) wrth gyflawni ei waith ymchwil. Mae'r Rheolwr Treialon Ymchwil a Datblygu'n gweithio'n ddi-dor gyda staff Canolfan Gefnogi Ymchwil Gofal Iechyd Cymru sy'n darparu

cymorth a chynghor cytundebol ac sy'n gweithio i gynyddu'r nifer o dreialon masnachol a recriwtio o fewn y Bwrdd Iechyd.

Erbyn hyn, rydym wedi ymestyn ein gweithio mewn partneriaeth i gynnwys y Gwasanaeth Dylunio a Chynnal Ymchwil (RDSCS) a Phartneriaeth Gwyddorau Iechyd Academaidd De Ddwyrain Cymru (SEWAHSP). Mae cydweithio gyda'r cydweithwyr hyn wedi galluogi ABUHB i gefnogi'n weithredol ymchwilwyr mewn sgiliau ysgrifennu ceisiadau am grantiau i wneud mwy o arloesi. Mae cysylltiad da gyda'n partneriaid yn yr Uned Dreialu De Ddwyrain Cymru (SEWTU) wedi gweld trafod mewn cyfnodau dechreuol, datblygu treialon a'r cyfnodau sefydlu gan helpu i sicrhau bod dichonolrwydd ac adnoddau yn ABUHB yn cael eu hystyried a sicrhau llwyddiant ymchwil.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn barod yn llwyddiannus yn cydweithio ar lefel ranbarthol ond mae wedi ymrwymo'n llwyr i ymestyn y cydweithio hyn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.


Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (ABCi)

Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd Efydd, Arian ac Aur

Mae'r Tîm ABCi wedi ymrwymo i adeiladu gwybodaeth, gallu a dealltwriaeth o Wella Ansawdd Parhaus (QI) o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer o ddulliau a methodolegau'n cael eu defnyddio i wneud hyn. Mae defnyddio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd (IQT) wedi profi'n ddull hynod llwyddiannus. Mae IQT Efydd yn cefnogi'r sefydliad i ddatblygu a defnyddio iaith gwella gyffredin. Hyd yn hyn mae ABCi wedi cefnogi mwy na 3,500 o aelodau'r staff drwy'r hyfforddiant hwn.

Yn 2015/16 cyflenwyd IQT Arian ar draws ffiniau cyfundrefnol gyda chriw o gyflogai cartrefi Nyrsio'n cwblhau hyfforddiant gydag ABCi. Hefyd, mae 146 o gyflogai'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau neu yn y broses o gwblhau'r hyfforddiant.



Hefyd, mae 2015/16 wedi gweld datblygu Rhwydwaith Aur ABCi, sy'n gwella ymhellach fedrusrwydd Gwella Ansawdd o fewn y sefydliad.

Gwell Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nod y Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth well yw gwella gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau uwch arweinwyr a rheolwyr o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae'r rhaglen yn cefnogi model o newid arweinyddiaeth a thrawsffurfio ynghyd â rhoi pwyslais ar gyd-gynhyrchu. Drwy gwblhau prosiect gwella, mae pob arweinydd yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r ymagweddau hyn i ddatrys problemau a darparu gwell gwasanaethau i'n cleifion. Yn ystod 2015/16 roedd dau griw arall yn cwblhau'r cwrs.

Arwain Pobl

Roedd ein rhaglen 'Arwain Pobl' yn parhau i dyfu o nerth i nerth yn 2015/16.

Mae'r rhaglen yn ceisio:


- Cynyddu sgiliau rhyngpersonol er mwyn gwella ymgysylltiad tîm a lles cyflogai;
- Cyfrannu at well ansawdd, diogelwch a pherfformiad drwy ddylanwadu ar ffactorau allweddol cysylltiol;
- Galluogi cyfranogwyr i fod yn asiantaethau newid diwylliant mwy effeithlon ac effeithio'n fwy pwerus ar y systemau lle maen nhw'n gweithio; a

- Datblygu mwy o ymwybyddiaeth o hunan-broses a phroses grŵp/ cymdeithasol sy'n effeithio ar berthnasoedd a chyflenwi gofal yn y gweithle.

Datblygu sgiliau Modelu Dadansoddiadol a Mathemategol

Mae ABCi yn unigryw ymhlith timau gwella gan fod ganddo'r medrusrwydd mathemategol wedi'i fewnosod o fewn y tîm. Yn 2015/16 roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y tîm hwn wedi canolbwyntio ar ddadansoddi a modelu gwasanaethau iechyd.

Modelu Sylfeini/ Hyfforddiant Dadansoddol i bob Rhanbarth



Yn 2016/17, bydd y tîm yn adolygu ei ymagwedd at Gyrsgiau Modelu i ganolbwyntio ar griw llai o hyfforddai gyda'r nod o greu mwy o fedrusrwydd mewn dadansoddi data a modelu mathemategol dros y tymor hwy yn ABUHB.

Bydd hyfforddiant sylfaenol yn cael ei ailenwi fel lefel Efydd a'r cyrsiau modelu fel lefel Arian gyda phrosiectau dadansoddi a modelu sy'n canolbwyntio ar wasanaethau, yn edrych ar broblemau go iawn. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn yr Arian yn dod yn rhan o Rwydwaith Aur ABCi gyda chyfle i gael hyfforddiant 'Aur' uwch i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Addysg Feddygol - Ysgol Glinigol Gwent

Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o gydnabod y lefelau a'r amrywiaeth o weithgareddau addysgol sy'n digwydd ar draws y sefydliad. Rydyn ni'n ystyried addysg a hyfforddiant yn elfen hanfodol o'n gwaith ac mae Ysgol Glinigol Gwent yn rhan annatod o'r Bwrdd Iechyd.

Mae Ysgol Glinigol Gwent yn fras yn cynnwys pob agwedd o addysg feddygol gan gynnwys myfyrwyr meddygol israddedig, Meddygon dan Hyfforddiant (meddygon iau), Cymrodwr Clinigol, Meddygon Arbenigol, Ymgynghorwyr, Meddygon Teulu a Deintyddion. Drwy weithio ochr yn ochr ag uwch staff clinigol a chysylltu i mewn i Ddeoniaeth Cymru a chyrff rheoli cenedlaethol eraill fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol a Cholegau Brenhinol, mae rhwydwaith bach o Reolwyr Addysg a Staff Cymorth Gweinyddol yn gyfrifol am gydlyn, rheoli a chyfenwi addysg feddygol.

Rydyn ni wedi bod yn darparu lleoliadau clinigol ar gyfer myfyrwyr meddygol o Brifysgol Caerdydd am nifer o flynyddoedd ac rydym yn parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gyda'r brifysgol i ddatblygu Cwricwlwm Meddygol newydd.

Yn 2015/16, roedd y Bwrdd Iechyd yn darparu tua 4,500 o leoliadau ar gyfer hyfforddai israddedig meddygol. Gwelwyd ffocws ar ansawdd yr hyfforddiant meddygol ar draws y Bwrdd. Drwy weithio gyda Deoniaeth Cymru, rydym wedi gweithio i ymgysylltu gyda chlinigwyr i wella profiad hyfforddi o fewn y Bwrdd Iechyd. Erbyn hyn, rydyn ni'n mabwysiadu ymagwedd rhagweithiol at bryderon a materion ansawdd a godir gan hyfforddai er mwyn gweithredu ar unwaith a gwneud gwelliannau parhaus sy'n esgor ar well gofal a diogelwch i gleifion.

Mae Ysgol Glinigol Gwent hefyd wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymagwedd amlddisgyblaeth at hyfforddiant gyda nifer o Nyrsys Arbenigol a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol. Bu hyn yn arbennig o amlwg mewn hyfforddiant sgiliau clinigol ac efelychu. Mae efelychu ffyddlondeb uchel wedi datblygu'n sylweddol yn ystod 2015/16. Mae hyn yn awr yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i wella gofal cleifion yn uniongyrchol gyda senarios realistig o argyfyngau'n cael eu defnyddio i wella gweithio fel timau ac effeithlonrwydd.

Cynladwyedd

Strwythur Rheolaeth

Mae gan y Bwrdd Grŵp Cynladwyedd o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Nod y grŵp yw datblygu agenda cynladwyedd y sefydliad. Yn adrodd yn ôl i'r grŵp, mae'r Grŵp Llywio Rheoli'r Amgylchedd sy'n datblygu gwelliant mewn rheoli ynni, dŵr a rheoli gwastraff drwy ddatblygu ac adrodd yn ôl yn erbyn targedau. Hefyd, mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr eraill sy'n gyfrifol am ddatblygu caffael cynaliadwy, IT a mentrau teithio actif/ cynaliadwy.

Mae materion iechyd y cyhoedd amgylcheddol fel ceisiadau Cynllunio a Thrwyddedu'n cael eu delio ar y cyd gyda Iechyd Amgylcheddol Iechyd y Cyhoedd Cymru a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd Lloegr. Cyflwynir adroddiadau am ddigwyddiadau iechyd y cyhoedd amgylcheddol i'r Bartneriaeth y Cyhoedd ac i Is-bwyllgor Lles Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Proffil yr Ystâd

Mae ystâd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys rhyw 121.82 hectar o dir gydag adeiladau sy'n cwmpasu cyfanswm gros o ardal llawr o 312,426 M2 ac mae'n cynnwys:

- 2 Ysbytai Cyffredinol Aciwt
- 3 Ysbytai Aml-wasanaethau
- 4 Ysbytai tymor byr heb fod yn aciwt
- 2 Ysbytai arhosiad hir
- 1 Ysbyty Arbenigol
- 3 Ysbytai Cymuned
- 48 Cyfleusterau eraill i gleifion
- 9 Cyfleusterau cefnogi eraill

Uchafbwyntiau Perfformiad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar hyn o bryd yn diweddarau ei Strategaeth Rheoli Carbon yn dilyn strategaeth 5 mlynedd flaenorol lwyddiannus oedd â tharged heriol ar gyfer gostwng carbon o 3%

blwyddyn ar ôl blwyddyn am 5 mlynedd. Bydd y strategaeth ddiwygiedig yn adlewyrchu'r blaenoriaethau presennol, y gyrwyr a'r cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n archwilio sut gall rheoli carbon yn gyffredinol yn y sefydliad fod yn fwy effeithlon, gydag arfer da, technoleg ac arloesi. Mae hyn yn cynnwys targed heriol o ostwng carbon o 3% blwyddyn ar ôl blwyddyn am 5 mlynedd, sy'n parhau gyda tharged y 5 mlynedd flaenorol. Roedd hwn yn gwyrddroi gostyngiad o 18% mewn treuliad cyffredinol a 14% o ostyngiad mewn CO2

Roedd mabwysiadu'r strategaeth wreiddiol yn arwain at sawl menter gan gynnwys adolygu systemau rheoli adeiladau yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, a YYF, cau'n awtomatig PC ar gyfer 5000+ o gyfrifiaduron, peiriant oeri effeithiol ynni ar gyfer theatrau llawdriniaethau Ysbyty Brenhinol Gwent, cynlluniau golau awtomatig. ynni isel ar gyfer rhannau allweddol o'r ystâd. Adeiladwyd ar ymgysylltu â staff ac arweinyddiaeth ar ostwng ynni a sefydlwyd rhwydwaith o unigolion allweddol.

Mae gosod bwyler biomas yn ddiweddar yn Ysbyty Aneurin Bevan hefyd wedi effeithio ar y defnydd o ynni adnewyddol.

Mae amnewid peiriant gwres a phŵer cyfun yn Ysbyty Nevill Hall wedi cynyddu'r cynnyrch trydan o ryw 30% sy'n gostwng yr angen am fewnforio trydan o'r grid. Mae hyn wedi esgor ar gynnydd o gynhyrchu ar safle o tua 2.0M kWh i 3.5M kWh gyda gostyngiad cysylltiol mewn costau a charbon.

Y llynedd, gwelwyd treigladau parhaus o unedau LED effeithiol o ynni amnewidiol. Roedden ni'n llwyddo i gael benthyciad gan Lywodraeth Cymru gyda chyfraniad gan y Bwrdd Iechyd i wneud cyfanswm o £407,000. Roedd hyn yn ein galluogi i ymestyn golau LED drwy'r sefydliad.

Rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd da wrth ostwng ein gollyngiadau CO2. Mae data 2015/2016 yn dangos gostyngiad o 2.46% mewn gollyngiadau CO2 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a gostyngiad o 5.78% dros y ddwy flynedd flaenorol. Dylid nodi fod y gollyngiadau CO2 wedi'u hail osod dros y cyfnod yn unol â chanllawiau gyda chyhoeddi ffactorau trawsnewid diweddaraf a gyhoeddwyd gan DEFRA.

Rydyn ni hefyd yn adrodd am raddfeydd perfformiad Ynni gwell o 363 kWh/M2 ar gyfer 2015/2016 o gymharu â 366 kWh/M2 ar gyfer 2014/2015 yn erbyn cyfartaledd presennol Cymru gyfan o 396 kWh/M2.

Gollyngiadau Nwy Tŷ Gwyr		2013-14	2014-15	2015-16
Dangosyddion - heb fod yn rhai ariannol (1000tCO ₂ e)	Cyfanswm gollyngiadau gros	32.018	30.927	30.167
	Cyfanswm Gollyngiadau Net			
	Gollyngiadau gros Sgôp 1 (anuniongyrchol)	15.521	14.608	14.948
	Gollyngiadau gros Sgôp 2 & 3	16.497	16.319	15.219
Treuliad Ynni Perthynol (miliwn KWh)	Trydan - na ellir ei adnewyddu	33.235	32.878	30.662
	Trydan : Adnewyddadwy			
	Nwy	84.321	79.36	81.208
	LPG			
	Arall	2.251	0.855	1.468
Dangosyddion Ariannol (£miliwn)	Gwariant ar Ynni	6.9	6.4	5.9
	Gwariant ar Drwydded CRC (2010			0.52
	Gwariant ar atrediadau achrededig (e.e. GCOF)			
	Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol			

Mae treuliant dŵr yn cael ei fonitro'n fanwl gyda chyfarpar monitro wedi'i ffitio i'r holl fesuryddion yn y prif safleoedd. Roedd hyn yn ein galluogi i sylwi'n gyflym ar broffiliau treuliad anghyffredin a chymryd camau gwella'n sydyn.

Treuliant Adnoddau		Treuliant Adnoddau	2013-14	2014-15	2015-16
Dangosyddion heb fod yn rhai ariannol (000m3)	Dŵr Treuliant (Ystâd Swyddfeydd)	Wedi cyflenwi	403	399	409
		Echdynnwyd			
		I bob FTW			
	Dŵr Treuliant (Ystâd heb fod yn swyddfeydd)	Cyflenwyd			
		Echdynnwyd			
Dangosyddion ariannol (£ miliwn)	Costau Cyflenwad Dŵr (Ystâd Swyddfeydd)		1.0	1.090	1.112
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystâd heb fod yn swyddfeydd)				

Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i weithio tuag at gyflwyno dulliau mwy cynaliadwy ac effeithlon o brosesu'r gwastraff a grëwyd o weithgareddau gofal iechyd.

Mae cyfleusterau ailgylchu wedi'u cynnwys ar bob safle prif ysbyty sy'n ein galluogi i waredu pethau cymysg y gellir eu hailgylchu i'w dosbarthu a'u hail brosesu wedyn yn gynnyrch a deunyddiau newydd. Mae

cardfwrdd yn cael ei wahanu a'i bacio'n fyrnau yn y ddau safle prif ysbytai o fewn y Bwrdd Iechyd gan brosesu dros 100 tunnell fetrig o gardfwrdd yn fyrnau maint melin bob blwyddyn.

Mae gwahanu gwastraff Heintus yn cael ei werthuso'n barhaus a hyd y mae'n bosibl yn unol â chanllawiau ac mae eitemau arfer gorau'n cael eu tynnu oddi yno a'u rhoi mewn opsiynau gwaredu llai costus.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu arferion rheoli gwastraff arloesol sy'n cynnwys treial ar ailbroesu ac ailgylchu Amlap Polypropylene o hambyrddau offer theatr a chyflwyno cynwysyddion newydd a gwell gwahanu ar gyfer gwaredu bagiau Hylif IV gwag.

Mae system ailgylchu Gwastraff Bwyd hefyd wedi'i gyflwyno yn Ysbyty Ystrad Fawr, lle mae gwastraff bwyd yn cael ei anfon ar gyfer Treuliad Anaerobig sy'n cynhyrchu Biogas a thrydan.

Gwastraff		2013-14	2014-15	2015-16
Dangosyddion nad - sy'n rhai Ariannol (tunelli metrig)	Cyfanswm Gwastraff	2729	2782	3080
	Tirlenwi	1312	1343	1410
	Ail ddefnyddio/ Ailgylchu	590	619	845
	Compostio			
	Llosgi gan adfer ynni			
	Llosgi heb adfer ynni	827	820	825
Dangosyddion Ariannol (£ 000)	Cyfanswm Cost Gwaredu	762	853	831
	Tirlenwi	261	293	319
	Aildddefnyddio/ Ailgylchu	58	104	72
	Compostio			
	Llosgi gan adfer ynni			
	Llosgi heb adfer ynni	443	456	440

Mae data gwastraff hylendid/ ffaidd wedi'i gynnwys am y tro cyntaf yn nata ariannol a heb fod yn ariannol tirlenwi 2015-16. Felly, mae data tirlenwi 2013/14 & 2014/15 wedi'i ailddatgan i roi cymhariaeth gywir.*

***O fewn y data gwastraff, mae ychydig bach o frasmcanu o safbwynt casglu biniau olwyn o Ganolfannau Iechyd a Chlinigau Mae hyn yn cyfateb i ddim ond 1.7% o gyfanswm tunelli metrig tirlenwi.*

Rheolaeth Amgylcheddol - ISO 14001

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu System Rheolaeth Amgylcheddol (EMS) ardystiedig trydydd parti i safon ryngwladol ISO 14001.

Mae'r EMS wedi datblygu i fod yn ganolbwynt ar gyfer datblygu gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae'n darparu ymagwedd unol ar gyfer rheoli mentrau lleihau gwastraff, ailgylchu, rheoli ynni a charbon, caffael cynaliadwy a mentrau teithio gwyrdd.



Mae ardystiad yn sicrhau ein bod nid yn unig yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth ond ein bod yn mynd y tu hwnt i hyn drwy weithredu arfer gorau yn ein rôl fel sefydliad GIG enghreifftiol ym maes gwastraff gofal iechyd a rheolaeth amgylcheddol.

Mae'r sefydliad yn gosod pwysigrwydd mawr ar ardystiad parhaus i ISO 14001 a'r sicrwydd y mae'n ei roi i'r Bwrdd a'n budd-ddeiliaid.

Edrych Ymlaen

Byddwn yn parhau, fel sefydliad i ddatblygu ein gwelliannau a'n datblygiadau. Byddwn yn parhau i gynnal ein busnes yn agored ac i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am ein perfformiad.

Bydd gwybodaeth am ein gwasanaethau'n parhau i gael ei gyhoeddi i roi sicrwydd i'n pobl a'n budd-ddeiliaid bod ein gwasanaethau'n effeithiol, yn effeithlon, yn briodol ac wedi'u llunio i gyflawni eu hanghenion a'u disgwyliadau.

Cysylltiadau Defnyddiol

Gobeithio eich bod wedi cael yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Drwy'r adroddiad rydym wedi cyfeirio at ddogfennau ac adroddiadau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl am y flwyddyn 2015/16.

Gellir gweld yr adroddiadau hyn drwy ddilyn y dolenni canlynol:

- **Datganiad Ansawdd Blynyddol 2015/16**

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

- **Adroddiad Ymatebolrwydd, Datganiad Rheolaeth Blynyddol a Chyfrifon Ariannol 2015/16**

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>

- **Adroddiad Perfformiad 2015/16**

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/62034/>